ARHOLIADAU 360°

Ffocws ar... **Sut mae graddau'n cael eu penderfynu**

Ffiniau graddau

Mae pa radd mae pob dysgwr yn ei chael mewn pwnc yn dibynnu ar faint o farciau maen nhw'n eu cael yn eu harholiadau a'u hasesiadau di-arholiad.

Ar ôl i arholiad gael ei farcio, mae'r broses ddyfarnu yn dechrau, ac mae 'pwyllgor dyfarnu' yn cyfarfod i osod ffiniau graddau pob papur arholiad ac asesiad. Y pwyllgor dyfarnu yw grŵp o uwch-arholwyr sy'n arbenigwyr yn y pwnc ac sydd wedi helpu i osod a marcio'r papurau arholiad. Y corff dyfarnu sy'n dod â'r pwyllgor dyfarnu at ei gilydd.

Ffin gradd yw'r marc isaf sydd ei angen i gyflawni gradd benodol. Er enghraifft, os yw'r ffin gradd ar gyfer C yn 50 marc, yna mae'n rhaid i ddysgwyr gael 50 marc neu fwy i gyflawni gradd C.

Mae ffiniau graddau yn gallu newid bob blwyddyn. Un flwyddyn efallai bydd angen 60 marc ar ddysgwr i ennill gradd B, a'r flwyddyn nesaf gallai fod yn 58.

Pam mae ffiniau graddau yn newid?

Mae papurau arholiad yn newid bob blwyddyn, ac mae'n amhosibl cynhyrchu papurau arholiad sydd yn union yr un lefel o anhawster â'r rhai mewn blynyddoedd blaenorol. Byddai'n annheg i ddysgwyr sydd wedi sefyll arholiad ychydig yn anoddach orfod cael yr un nifer o farciau i ennill yr un radd â'r rhai a safodd arholiad llai anodd. Mae hyn yn golygu gallai nifer y marciau sydd eu hangen i ddangos y safon sydd ei angen ar gyfer gradd fod yn wahanol mewn un flwyddyn i'r hyn oedd ei angen mewn blwyddyn flaenorol. Am y rheswm yma, gall ffiniau'r graddau aros yr un fath, neu weithiau bydd angen iddyn nhw newid. Mae hyn yn dangos tegwch i ddysgwyr, ym mha bynnag flwyddyn maen nhw'n sefyll yr arholiad, ac yn cynnal safonau ar gyfer dysgwyr y gorffennol, y presennol a'r dyfodol.

Sut mae'r pwyllgor dyfarnu yn gosod ffiniau graddau?

Dydy pwyllgorau dyfarnu ddim yn gwneud argymhellion am bob ffin gradd, maen nhw'n canolbwyntio ar ffiniau graddau allweddol lle mae'r safon perfformiad yn hysbys. Enw arall ar rhain yw ffiniau graddau beirniadol. Mae ffiniau graddau ar gyfer graddau eraill yn cael eu cynhyrchu gan gyfrifiad sy'n gysylltiedig â nifer y marciau rhwng ffiniau'r graddau dyfarnu, fel eu bod nhw wedi'u lleoli'n gyfartal ar draws yr ystod marciau. Yr enw ar rhain yw ffiniau graddau rhifyddol. Am ragor o wybodaeth am hyn, edrycha ar ein **fideo ar farcio a dyfarnu.**

parhad...

Ar ar gyfer Safon UG a Safon Uwch, y ffiniau graddau beirniadol yw graddau A ac E. Mae'r ffiniau graddau rhifyddol yn cael eu cyfrifo fel bod nifer y marciau rhyngddyn nhw yn gyfartal. (Er enghraifft, os yw'r ffin gradd a argymhellir gan y pwyllgor ar gyfer A yn 62 marc allan o 80, a bod y ffin gradd a argymhellir ar gyfer E yn 30 marc allan o 80, mae 32 marc rhyngddyn nhw. Byddai C yn cael ei chyfrifo ar 46 marc, B ar 54 marc a D ar 38 marc). Mae rheol hefyd ynghylch ble mae'r ffin A* wedi'i phennu.

Ar gyfer TGAU mae'r ffiniau graddau beirniadol ar raddau A, C ac F. Mae'r ffiniau graddau rhifyddol ar B, D, E ac G. Mae rheol hefyd ynglŷn â lleoliad y ffin A*.

Mae rhai eithriadau, er enghraifft mewn pynciau haenog lle mae angen i'r pwyllgor ystyried mwy o ffiniau, fel bod aliniad rhwng graddau sy'n gorgyffwrdd ar y gwahanol haenau.
Mae'r pwyllgor yn defnyddio amrywiaeth o wybodaeth a thystiolaeth i'w helpu i wneud eu hargymhellion ar gyfer pob ffin gradd, gan gynnwys:

- gwybodaeth am ddysgwyr eleni a dysgwyr llynedd
- gwybodaeth ystadegol am sut perfformiodd dysgwyr ym mhob cwestiwn
- barn arholwyr ar waith dysgwyr maen nhw'n ei weld a sut mae'n cymharu â gwaith llynedd.

Sut mae'r pwyllgor dyfarnu yn defnyddio gwybodaeth ystadegol?

Mae'n bwysig i'r pwyllgor wybod a yw carfan eleni o ddysgwyr yn debyg i'r garfan a wnaeth sefyll yr arholiad llynedd. I wneud hyn, maen nhw'n defnyddio gwybodaeth ystadegol, fel oedran a pherfformiadau blaenorol, o'r ddau grŵp. (Os yw'r dysgwyr yn debyg iawn a does dim byd arall wedi newid, mae'n rhesymol meddwl dylai'r canlyniadau neu'r deilliannau cenedlaethol, fod yn debyg).

Mae'r pwyllgor hefyd yn ystyried a oes unrhyw newidiadau i'r cymhwyster. Pan gaiff cymwysterau newydd eu cyflwyno, mae dysgwyr yn yr ychydig flynyddoedd cyntaf yn debygol o gael marciau is yn yr arholiadau na'r rhai mewn blynyddoedd blaenorol, oedd yn fwy cyfarwydd â'r arholiadau a'u fformatau. Yn yr achos yma, gellir gostwng ffiniau graddau i wneud iawn am hyn. Yr enw ar hyn yw dull canlyniadau cymaradwy.

Mae'r pwyllgor hefyd yn edrych ar wybodaeth ystadegol am yr arholiadau eu hunain. Maen nhw'n edrych ar faint o farciau a gyflawnwyd gan ddysgwyr ar bob cwestiwn unigol, ac mae hyn yn rhoi syniad a oedd yr arholiad yn fwy neu'n llai anodd nag arholiad llynedd. Gall ffiniau graddau gael eu gostwng neu eu codi i wneud iawn am wahaniaethau.

Gyda'i gilydd, mae'r wybodaeth yma'n rhoi syniad o ble byddai modd pennu ffin gradd. Mae'n fan cychwyn i'r pwyllgor.

parhad...

Ydy'r pwyllgor dyfarnu yn edrych ar waith dysgwyr?

Ar ôl ystyried y wybodaeth ystadegol, mae'r pwyllgor dyfarnu yn edrych ar rai o'r papurau arholiad sydd wedi'u cwblhau (rydyn ni'n eu galw nhw'n sgriptiau) gan ddysgwyr. Mae aelodau'r pwyllgor yn edrych ar bapurau dros ystod o farciau sy'n cael eu harwain gan y man cychwyn. Maen nhw hefyd yn ystyried sut mae perfformiad yn cymharu â phapurau arholiad llynedd. Mae edrych ar sut perfformiodd dysgwyr ar y papurau arholiad yn un o'r ffynonellau tystiolaeth pwysicaf mae'r pwyllgor yn ei hystyried.

Sut mae'r pwyllgor dyfarnu yn penderfynu ar ffiniau graddau?

Yn olaf, unwaith bydd yr holl dystiolaeth wedi cael ei hystyried, mae'r pwyllgor yn argymell nifer y marciau sydd eu hangen ar gyfer pob gradd allweddol ar gyfer y cymhwyster hwnnw.

Er bod y dadansoddiad a gafodd ei gwblhau cyn y broses ddyfarnu yn fan cychwyn, mae cyfran wirioneddol y dysgwyr ar bob gradd yn dibynnu ar ble mae'r ffiniau wedi cael eu pennu gan y pwyllgor.

Yna, mae'r corff dyfarnu yn cynnal gwiriadau i sicrhau bod yr holl dystiolaeth sydd ar gael wedi cael ei hystyried a bod cyfiawnhad dros yr argymhellion. Caiff ffiniau'r graddau terfynol eu hadolygu a'u cymeradwyo gan swyddog cyfrifol y corff dyfarnu. Yna mae'r corff dyfarnu'n defnyddio'r ffiniau graddau i gyfrifo'r radd mae pob dysgwr wedi'i hennill.

Mae'r broses yma yn sicrhau byddai dysgwr sy'n perfformio ar yr un safon yn cael yr un radd p'un a oedden nhw'n sefyll yr arholiad eleni neu llynedd.

Beth yw rôl Cymwysterau Cymru yn hyn oll?

Mae Cymwysterau Cymru yn nodi'r gofynion ar gyfer y broses ddyfarnu yng Nghymru ac yn ei monitro i wneud yn siŵr ei bod yn cael ei gwneud yn briodol. Cyn i unrhyw raddau gael eu cyhoeddi neu cyn i gymwysterau gael eu cadarnhau, rhaid i gyrff dyfarnu adrodd eu canlyniadau i ni.

Os yw'r canlyniadau cyffredinol yn wahanol i'r hyn bydden ni'n disgwyl iddyn nhw fod, rydyn ni'n gofyn i'r corff dyfarnu esbonio pam. Os nad ydyn ni'n fodlon, gallwn ni ofyn i'r corff dyfarnu edrych eto ar eu prosesau, neu i gynnal dadansoddiad ychwanegol.

Mewn achosion lle caiff arholiadau eu sefyll ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae'r broses yma'n cael ei goruchwylio ar y cyd gan y rheoleiddiwr cymwysterau ym mhob gwlad.

Rhagor o wybodaeth

Cysyllta â ni yn cyfathrebu@cymwysteraucymru.org os oes gen ti unrhyw ymholiadau am arholiadau. Byddwn ni'n hapus i ateb dy gwestiynau di.